



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona

1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Plismona, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

2. DIBEN Y BWYDD PLISMONA

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau (CHTh), sydd â dyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddal yr heddlu'n gyfrifol ar ran y cyhoedd. Y Bwrdd Plismona yw'r fforwm lle bydd CHTh yn dal y Prif Gwnstabl (PG) yn gyfrifol am arfer swyddogaethau swydd y PG a swyddogaethau'r bobl sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y PG.

Mae'r Bwrdd Plismona'n rhoi cyfle i'r CHTh a'r PG arfer eu rolau unigol mewn modd tryloyw. Mae hyn yn golygu cadw annibyniaeth weithredol yr heddlu lleol, sicrhau craffu cadarn a dal y PG i gyfrif, a chefnogi penderfyniadau da ac effeithiol. Mae'r Bwrdd Plismona'n rhoi cyfle ar gyfer goruchwyllo busnes yr Heddlu a chraffu arno'n amserol. Bydd yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau, yn ogystal â rhyddhau'r gofynion fel y nodir yn y Fframwaith Llywodraethu ar y Cyd.

3. LLYWODRAETHU

- Cadeirydd y Bwrdd Plismona yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.
- Mae gan y Bwrdd Plismona'r awdurdod i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau o fewn cylch gwaith ei gyfrifoldebau statudol. Mae gan y Bwrdd rôl allweddol o ran sicrhau bod ymrwymadau'r Heddlu a SCHTh tuag at ofynion cenedlaethol yn cael eu cynnal a'u gwella yn ôl yr angen.
- Mae'r Bwrdd Plismona'n cael ei ddal i gyfrif am y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro. Bydd unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yng Nghofrestr Risg yr Heddlu a/neu SCHTh.

4. CYLCH GORCHWYL

Sefydlir blaenraglen waith i sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol a'u bod yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn. Caiff y blaenraglen waith ei hadolygu bob pythefnos gan Dîm Uwch Reolwyr SCHTh. Bydd ymagwedd thema'n cael ei mabwysiadu, gyda phob cyfarfod Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar faes busnes penodol. Adnabyddir a chyflwynir cwestiynau i'r PG ymlaen llaw yn ôl materion y tynnir sylw arnynt drwy oruchwyliaeth a gwaith craffu SCHTh, ymgysylltu â'r gymuned, adborth gan y cyhoedd a risg sefydliadol.

Yn unol â Phrotocol Plismona 2011, bydd y Bwrdd Plismona yn:

- Rhoi cyfle i'r CHTh geisio sicrwydd gan y PG am faterion dynamig a materion sy'n dod i'r amlwg;
- Dal y PG i gyfrif am berfformiad sefydliadol;

- Darparu her cyfaill beirniadol i hybu gwelliannau i wasanaethau plismona, heb lesteirio annibyniaeth weithredol y PG.

5. AELODAETH

Bydd y bwrdd yn cynnwys yr aelodau craidd canlynol (neu gynrychiolydd enwebedig):

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
- Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro *neu'r* Dirprwy Swyddog Monitro
- Prif Swyddog Cyllid

Heddlu Dyfed-Powys

- Prif Gwnstabl
- Cyfarwyddwr Cyllid (fel y bo'n briodol)
- Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad (fel y bo'n briodol)

Caiff CHTh a'r PG ill dau amrywio presenoldeb a gwahodd pobl eraill i fod yn bresennol yn ôl eu disgrisiwn i roi cyngor proffesiynol i'r Bwrdd.

Bydd y bwrdd yn cwrdd bob mis a bydd angen mwyafrif syml o'r rhai sy'n bresennol i fodloni'r gofynion cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Caiff y CHTh neu'r PG alw cyfarfodydd arbennig er mwyn mynd i'r afael â materion brys. Bydd y CHTh neu'r PG, neu'r ddau, yn penderfynu pa un ai a yw mater yn fater brys ai peidio ar gyfer y dibenion hyn.

6. YSGRIFENYDDIAETH

Mae SCHTh yn gyfrifol am gynnal cofnodion sy'n ymwneud â'r Bwrdd Plismona. Bydd hyn yn cynnwys rheoli a chyhoeddi cofnodion a chrynhoi papurau ac agendau cyfarfod. Mae Swyddog Staff y PG yn gyfrifol am sicrhau bod papurau'r Heddlu'n cael eu cyflwyno yn unol â'r amserlenni isod, a bydd yn rhoi gwybod i aelodau staff perthnasol yr Heddlu am ganlyniadau a chamau gweithredu. Bydd Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh yn rhoi gwybod i aelodau staff perthnasol SCHTh am ganlyniadau a chamau gweithredu.

Anfonir agenda ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer y Bwrdd Plismona i'r Aelodau heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod cyn y cyfarfod. O'r herwydd, rhaid i Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh dderbyn papurau i'w hystyried yn y Bwrdd Plismona o leiaf 8 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd angen i'r Pennaeth Staff gymeradwyo adroddiadau brys neu hwyr cyn eu cynnwys ar gyfer ystyriaeth gan y Bwrdd.

Rhaid i bapurau a gyflwynir i'r Bwrdd Plismona gael eu cyflwyno ar ffurf y cytunwyd arno. Bydd angen marcio pob papur a dderbynnir yn briodol, yn unol â Chynllun Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth, er mwyn amddiffyn rhag datgelu amhriodol.

Bydd materion a drafodir yn y Bwrdd Plismona sydd â sensitifrwydd gweithredol, sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol, neu sydd â sensitifrwydd masnachol, naill ai'n cael eu gwneud yn gyhoeddus ar adeg berthnasol yn y dyfodol, neu'n cael eu cadw gan SCHTh. Gwneir penderfyniadau ynghylch rhyddhau gwybodaeth yn gyhoeddus yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac offerynnau statudol eraill neu reoliadau sy'n berthnasol i wasanaeth yr heddlu a'r Comisiynydd.

7. RHEOLI FESRIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU

Fersiwn:	2024-1
Awdur Gwreiddiol:	Sophie Morgan, Swyddog Cymorth Gweithredol
Dyddiad cymeradwyo:	24 Medi 2024
Bwrdd Cymeradwyo:	Bwrdd Plismona
Dyddiad adolygu:	Medi 2025